Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Ysgol Gynradd Maesyrhandir
Plantation Lane
Y Drenewydd
Powys
SY16 1LQ

18/12/2024

Annwyl Caroline Bufton

**Ymweliad interim:** Rhagfyr 2024

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Gynradd Maesyrhandir yn ddiweddar i ystyried sut mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael â dau o'r argymhellion o'u harolygiad craidd ym mis Mehefin 2022. Yn ystod yr ymweliad, cafodd y tîm gyfle i arsylwi addysgu a dysgu, edrych ar waith disgyblion a siarad â disgyblion, staff ac arweinwyr.

Mae arweinwyr a staff wedi gwneud gwelliannau â ffocws i fynd i'r afael ag agweddau ar y ddau argymhelliad. Maent yn cydnabod bod elfennau pwysig o weithgarwch addysgu a hunanwerthuso y gellid eu gwella ymhellach. Isod, ceir crynodeb o ganfyddiadau'r tîm. Dylai arweinwyr ddefnyddio'r rhain i gefnogi mwy o gynnydd.

**Ffocws yr ymweliad**

**Gwella gweithgareddau monitro a gwerthuso a sicrhau eu bod yn canolbwyntio'n glir ar ddysgu'r disgyblion**

- Mae arweinwyr wedi cynnal cylch â ffocws o weithgarwch monitro ers yr arolygiad craidd. Mae'r pennaeth dros dro wedi mireinio'r broses hon yn fwy diweddar i gasglu gwybodaeth ddefnyddiol ar draws ystod ehangach o waith yr ysgol. Er enghraifft, trwy weithgarwch cymedroli ysgol gyfan a chyfarfodydd bob tymor am gynnydd disgyblion.
- Mae arweinwyr yn cyfarfod ag athrawon bob tymor i drafod cynnydd a datblygiad cyfannol disgyblion unigol. Maent yn defnyddio'r cyfarfodydd hyn yn dda i amlygu ble maent yn credu y mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf a ble gallent elwa ar gymorth ychwanegol. Maent yn adolygu effaith y ddarpariaeth bresennol, yn cynnwys o fewn cymorth ymyrraeth gan yr ysgol a chymorth arbenigol yn briodol. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn alinio'r gweithgarwch hwn â monitro ansawdd a maint gwaith disgyblion yn drylwyr. Mae hyn yn cyfyngu ar eu gallu i werthuso effaith yr addysgu yn wrthrychol

neu osod disgwyliadau uchelgeisiol yn briodol ar gyfer cynnydd a chyflawniad disgyblion.
- Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn gwneud defnydd gwerthfawr o deithiau dysgu ac arsylwadau unigol o addysgu a dysgu i fonitro gweithredu strategaethau addysgu cytûn. Caiff yr arfer hon effaith gadarnhaol ar wella agweddau ar addysgu. Er enghraifft, mae athrawon yn dechrau gwneud defnydd cyson o feini prawf llwyddiant perthnasol i adeiladu ar ddysgu blaenorol disgyblion a datblygu eu medrau'n briodol.
- Mae arweinwyr yn defnyddio'u gwerthusiad o ansawdd yr addysgu i lywio blaenoriaethau datblygiad unigol ar gyfer athrawon. Fodd bynnag, nid ydynt yn nodi'n ddigon clir agweddau cyffredin ar addysgu sydd angen eu gwella ar draws dosbarthiadau. Er enghraifft, nid yw arweinwyr wedi canolbwyntio'n ddigonol ar yr angen i wella cyflymdra'r addysgu neu godi disgwyliadau athrawon o'r hyn y gall disgyblion ei wneud drostynt eu hunain.
- Mae arweinwyr yn gwneud defnydd gwerthchweil o hyfforddiant i gefnogi dysgu proffesiynol staff a hyrwyddo cydweithio rhwng pob un o'r staff ar flaenoriaethau a nodwyd gan yr ysgol. Mae arweinwyr a staff yn cymryd rhan mewn trafodaethau proffesiynol buddiol am newidiadau i addysgu a dysgu ac maent yn fyfyriol am eu harfer. Fodd bynnag, prin yw'r cyfle a gânt i arsylwi arfer effeithiol mewn ysgolion eraill, ac mae hyn yn cyfyngu ar eu gallu i wneud gwerthusiadau cywir am effeithiolrwydd eu haddysgu eu hunain neu ansawdd agweddau ehangach ar ddarpariaeth yr ysgol.

**Sicrhau bod athrawon yn darparu profiadau dysgu sy'n herio disgyblion yn briodol ac yn cefnogi datblygiad medrau**

- Mae'r ysgol yn gwneud cynnydd cyson tuag at yr argymhelliad hwn. Mae arweinwyr yn cydnabod bod angen gwella'r addysgu ymhellach fel bod tasgau yn herio disgyblion yn gyson i wneud cymaint o gynnydd ag y gallant.
- Ers yr arolygiad craidd, mae staff wedi defnyddio'r cyfle i adolygu a gwella agweddau penodol ar addysgu. Er enghraifft, maent wedi cyflwyno ymagwedd systematig at ddefnyddio meini prawf llwyddiant mewn gwersi. Mae hyn yn helpu disgyblion i wybod pa fedrau y maent yn eu datblygu a sut i'w cymhwyso i'w dysgu yn effeithiol.
- Mae gan athrawon ddealltwriaeth gadarn o anghenion disgyblion. Maent yn defnyddio hyn i osod nodau clir ar gyfer dysgu a sicrhau bod disgyblion yn teimlo'n hyderus i ymgymryd â thasgau. Fodd bynnag, mewn gormod o achosion, nid yw disgwyliadau athrawon o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni yn ddigon uchel ac mae staff yn gor-gyfarwyddo'u dysgu. Mae hyn yn arafu cyflymdra gwersi ac yn rhwystro gallu disgyblion i ddatblygu eu hannibyniaeth.
- Mae athrawon wedi ymgymryd â datblygiad proffesiynol gwerthchweil sy'n dechrau gwella agweddau ar addysgu. Er enghraifft, mae athrawon wedi elwa ar hyfforddiant i ddatblygu eu medrau digidol. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar ystod ac ansawdd y profiadau dysgu a ddarparant ar gyfer disgyblion. Mae dysgwyr yn cydnabod bod angen darparu mwy o ddysgu proffesiynol i wella ansawdd yr addysgu yn gyffredinol.
- Mae athrawon wedi dechrau gwneud defnydd gwell o gyd-destunau dilys ar gyfer dysgu'r disgyblion. Er enghraifft, mae disgyblion iau yn datblygu eu medrau entrepreneuraidd trwy weithgarwch codi arian, ac mae disgyblion hŷn yn defnyddio'u medrau digidol i hyrwyddo'r ysgol ymhlith rhieni a'r gymuned

leol. Mae'r profiadau hyn yn cymell disgyblion yn dda ac yn eu galluogi i weld gwerth yn eu dysgu.
- Mewn llawer o ddosbarthiadau, mae athrawon yn gofyn cwestiynau defnyddiol i asesu dealltwriaeth disgyblion. Yn yr enghreifftiau mwyaf effeithiol, maent yn gwneud ymyriadau amserol i fynd i'r afael â chamdybiaethau ac yn annog disgyblion i ymestyn, a myfyrio ar eu meddwl yn fuddiol.

Mae adroddiad arolygiad craidd diweddaraf yr ysgol a rhagor o wybodaeth am broses a diben ymweliadau interim i'w gweld ar ein gwefan: http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6662060

Yn gywir

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol